**PWYLLGOR PENSIYNAU 27-11-23**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:**

Stephen Churchman (Cadeirydd), Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), John Brynmor Hughes, Richard Medwyn Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:**

Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Ned Michael (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)
Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Pughe Roberts a Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2023 fel rhai cywir.

**5. CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023 ac ARCHWILIAD PERTHNASOL**

Croesawyd Yvonne Thomas (Archwilio Cymru) i'r cyfarfod

Cyflwynwyd adroddiad ynghyd a Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2022/23 (ôl archwiliad), gan y Rheolwr Buddsoddi oedd yn darparu manylion gweithgareddau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 31ain 2023. Atgoffwyd yr Aelodau bod drafft o'r cyfrifon wedi eu cyflwyno i gyfarfod 26ain Mehefin 2023 ac er nad oedd newidiadau arwyddocaol i'r prif ddatganiad yn dilyn archwiliad gan Archwilio Cymru, bod addasiad ar Nodyn 13: Rhaniad Incwm Buddsoddi, ond nad oedd y cyfanswm wedi newid. Ategwyd bod angen diweddaru Nodyn 23 - Trafodion Partïon Cysylltiedig - aelodaeth llywodraethu'r Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiynau cyn cyhoeddi yn derfynol.

Gwahoddwyd Yvonne Thomas (Archwilio Cymru) i gyflwyno adroddiad 'ISA260'. Adroddwyd bod yr archwilwyr yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni, unwaith y byddai'r Llythyr Cynrychiolaeth wedi ei arwyddo. Eglurwyd na all archwilwyr fyth roi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir ond yn hytrach yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennwyd lefel perthnasedd o £27.6635 miliwn ar gyfer archwiliad eleni i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a all arwain fel arall at gamarwain rhywun sy'n defnyddio'r cyfrifon. Cyfeiriwyd eto at y camddatganiad yn y cyfrifon gwreiddiol (Nodyn 13 Incwm Buddsoddi) a chadarnhawyd bod y rheolwyr bellach wedi ei gywiro.

Tynnwyd sylw at y penawdau isod:

- Yn cynnig un argymhelliad y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd redeg ac arbed yr adroddiad ar fanylion aelodaeth a gofnodwyd yn system Altair i gefnogi'r ffigyrau ag adroddwyd yn y cyfrifon. Nodwyd bod y Rheolwyr wedi derbyn yr argymhelliad ac wedi nodi bwriad o ddarparu adroddiad i gefnogi'r niferoedd aelodaeth mewn datganiadau ariannol yn y dyfodol – yr adroddiad i'w 'arbed' ar y diwrnod fel tystiolaeth.
- Bod y wybodaeth a gyflwynwyd o ansawdd uchel ac yn bositif iawn - yn adlewyrchiad da o'r trefniadau da sydd o fewn yr Adran Gyllid
- Yn diolch i'r Swyddogion am gwblhau'r cyfrifon mewn amserlen dynn

Diolchwyd i'r Archwilwyr am eu cydweithrediad a'u gwaith trylwyr. Gwerthfawrogwyd ymroddiad a chywirdeb y gwaith a diolchwyd i'r Rheolwr Buddsoddi a'r tîm am baratoi'r cyfrifon.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylw canlynol:

- Bod yr adroddiad yn un calonogol a phositif - yn rhoi hyder bod pethau yn dda a bod canlyniad yr archwiliad yn amlygu gwaith da'r swyddogion

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn a nodi'r adroddiad ISA 260 gan Archwilio Cymru**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd ôl archwiliad ar gyfer 2022 / 23**
- **Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electroneg**

**6. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi. Nodwyd bod yr adroddiad yn un sydd bellach yn ymddangos yn rheolaidd ar raglen y Pwyllgor Pensiynau fel modd o sicrhau bod yr Aelodau yn derbyn gwybodaeth gyfredol a diweddar. Cyfeiriwyd at grynodeb o drafodaethau a phenderfyniadau cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu (sef corff sydd yn gwneud penderfyniadau'r Bartneriaeth) a gynhaliwyd 20 Medi 2023 gan dynnu sylw penodol at adolygiad o'r Cynllun Busnes ar gyfer 2023/24.

Atgoffwyd yr Aelodau mai Waystone (Link yn flaenorol) yw'r gweithredwr sy'n darparu gwasanaethau a reoleiddir gan yr FCA; Russell Investments sy'n darparu opsiynau buddsoddi ar gyfer asedau rhestredig; Northern Trust yw'r ceidwad byd-eang penodedig; Hymans Robertson yw'r cynghorydd llywodraethu a goruchwylio a Robeco sy'n darparu gwasanaethau pleidleisio ac ymgysylltu i'r PPC, yn unol â'i gyfrifoldebau a'i ymrwymiadau stiwardiaeth.

Cyfeiriwyd hefyd at ddiweddariad y gweithredwr ynghyd a gwybodaeth am yr holl gronfeydd sydd wedi eu sefydlu gan y Bartneriaeth (Gwynedd yn rhan o 8 ohonynt, gyda 83% o Gronfa Gwynedd wedi'i bwlio gyda'r Bartneriaeth) ac at gofnod o berfformiad y cronfeydd hynny.

Yng nghyd-destun perfformiad y cronfeydd, nodwyd bod y flwyddyn ariannol yma wedi dechrau yn araf, ond bod y perfformiad ecwiti wedi dechrau gwella erbyn mis Mehefin a hynny oherwydd marchnadoedd America.

Yng nghyd-destun datblygiadau i'r dyfodol, adroddwyd bod gwaith yn parhau gyda marchnadoedd preifat, ymuno gyda'r is gronfa isadeiladedd penagored a mandad ecwiti preifat gyda Schroders fydd yn derbyn buddsoddiadau yn fuan. Yn olaf, nodwyd bod gwaith yn parhau i ddatblygu datrysiadau eiddo ar gyfer y bartneriaeth a bod proses tendr ar y gweill ar gyfer canfod darparwr eiddo.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb  i'r adroddiad, nododd y Cadeirydd bod Llywodraeth y DU, yn ddiweddar wedi bod yn feirniadol o arafwch y gwaith pwlio. Braf oedd cael adrodd bod Gwynedd, a Phartneriaeth Pensiwn Cymru ar y blaen yma.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi diweddariad chwarterol Partneriaeth Cymru**

## 7. CYNADLEDDAU PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad yn rhestru dyddiadau cynadleddau pensiynau ar gyfer 2024. Nodwyd bod y cynadleddau yn rhoi cyfle i'r Aelodau ehangu eu gwybodaeth a thrafod materion cyfoes. Trafodwyd y dyddiadau a bu i'r Aelodau ddatgan diddordeb yn y digwyddiadau hynny oedd yn gyfleus iddynt.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth a nodi'r dyddiadau**

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny). Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â phroses gaffael arfaethedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor a'i bartneriaid drwy danseilio cystadleuaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.**

## 9. ADOLYGIAD O DDYRANIAD ASEDAU STRATEGOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad yn cynnig dyraniad strategol newydd i asedau'r Gronfa ymhellach i'r gwelliant yn y sefyllfa gyllido ers prisiad tair blynedd 2022. Mynegwyd mai Dyrannu

Asedau Strategol yw'r penderfyniad pwysicaf ar gyfer unrhyw Gronfa Bensiwn gan ategu nad oes unrhyw ffordd gywir nac anghywir o benderfynu ar y Dyraniad Asedau Strategol ac mai mater o ddod o hyd i'r ateb gorau i gyfyngiadau a chyfleoedd yw hyn. Bydd yr ateb hefyd yn cael ei ddylanwadu gan athroniaethau personol y buddsoddwyr.

Diolchwyd am yr adroddiad

Trafodwyd yr asedau arfaethedig newydd

**PENDERFYNWYD cymeradwyo symud i'r dyraniad asedau strategol arfaethedig ar gyfer y Gronfa**

Nodyn:
Bod angen cywiro ffigwr Cyfanswm Amddiffyn

## 10. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO – ADRODDIAD YMGYSYLLTU Ch2 2023

Cyflwynwyd adroddiad chwarterol yn crynhoi'r gwaith mae Robeco (Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC) yn cyflawni ar ran y Gronfa Bensiwn, gan gynnwys y gwaith ymgysylltu.

Trafodwyd cynnwys yr adroddiad

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad**

Nodyn:
I'r dyfodol, sicrhau bod mwy o fanylder a gwybodaeth gefndirol yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben 10:50